**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 06.03.26 |
| **Pwnc / Subject:** | Ymateb ynghylch Ymchwiliad Statudol Annibynnol i Gangiau sy'n Meithrin Perthynas Amhriodol – Cylch Gorchwyl Drafft |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn croesawu sefydlu'r Ymchwiliad Annibynnol i Gantiau sy'n Meithrin Perthynas Amhriodol ac yn cydnabod y niwed dwys a pharhaus y mae dioddefwyr a goroeswyr camfanteisio'n rhywiol a cham-drin plant mewn grŵp yn ei brofi. Mae'n hanfodol bod dioddefwyr a goroeswyr yn cael eu rhoi wrth wraidd y gwaith hwn a bod yr Ymchwiliad yn arwain at welliannau ystyrlon a chynaledig i systemau diogelu.

Fel Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant, gan gynnwys effeithiolrwydd trefniadau diogelu mewn darparwyr addysg. Mae diogelu yn elfen graidd o'n holl weithgarwch arolygu. Wrth gyflawni ein swyddogaethau arolygu, rydym yn gwerthuso effeithiolrwydd diwylliant diogelu, polisïau, goruchwyliaeth arweinyddiaeth, arferion recriwtio mwy diogel, hyfforddiant staff, cadw cofnodion, ymgysylltiad amlasiantaeth ac ymdrin â phryderon. Mae ein tystiolaeth arolygu'n rhoi cipolwg ar gryfderau a gwendidau systemig, ond nid yw'n ymestyn i benderfyniadau gweithredol mewn achosion unigol. Felly, mae'n bwysig bod unrhyw archwiliad o arolygiaethau yn adlewyrchu natur werthusol, yn hytrach nag ymchwiliol, ein rôl statudol.

Mae Estyn yn arolygiaeth statudol sy'n gweithredu'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Nid yw'n arfer swyddogaethau diogelu, gorfodi na rheoli achosion. Mae ei rôl yn un werthusol yn hytrach nag yn un weithredol.

Mae ein safbwynt cyffredinol ar yr ymgynghoriad hwn fel a ganlyn:

- Mae Estyn yn croesawu sefydlu'r Ymchwiliad ac yn cefnogi ei ffocws ar gryfhau systemau diogelu a sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr a goroeswyr.
- Byddai'r Cylch Gorchwyl drafft yn elwa ar fwy o eglurder ynghylch y gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau diogelu gweithredol a swyddogaethau arolygu/goruchwylio statudol.

- Dylai'r Cylch Gorchwyl gydnabod yn benodol y fframwaith deddfwriaethol a llywodraethu gwahanol yng Nghymru.
- Dylid asesu arfer hanesyddol yn erbyn y safonau statudol a phroffesiynol sydd ar waith ar yr adeg berthnasol.
- Bydd cywirdeb gweithdrefnol yn cefnogi tegwch, cymesuredd a gweithredu argymhellion yn effeithiol.
- Dylai'r Ymchwiliad roi pwyslais cyfartal ar wella systemau ac atal yn flaengar, ac ar atebolrwydd ôl-weithredol. Bydd eglurder ynghylch sut bydd canfyddiadau yn trosi'n argymhellion ymarferol i ddarparwyr addysg a phartneriaid diogelu, y gellir eu rhoi ar waith, yn hanfodol i gyflawni effaith barhaus.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cadarnhad o gyfranogiad**

**C1: Mae'r arolwg ar agor i'r rhai 18 oed neu'n hŷn. A allwch chi gadarnhau eich bod yn 18 oed neu'n hŷn? ***

**Ydw**

**C2: Cadarnhewch eich bod yn fodlon cymryd rhan yn yr arolwg. ***

**Ydw**

**C3: Oes gennych chi brofiad bywyd neu brofiad proffesiynol o gangiau sy'n meithrin perthynas amhriodol? Gallai hyn gynnwys bod yn ddioddefwr neu'n oroeswr eich hun, bod yn aelod o'r teulu neu'n ffrind agos i ddioddefwr neu oroeswr neu fod wedi gweithio gyda dioddefwyr neu oroeswyr mewn rhinwedd broffesiynol. ***

**Nac oes**

**Os ateboch 'oes' uchod, atebwch y cwestiwn isod:**

**Pa fath o brofiad bywyd neu broffesiynol sydd gennych? ***

**Rwy'n ddioddefwr neu'n oroeswr gangiau sy'n meithrin perthynas amhriodol**

**Rwy'n aelod o deulu neu'n ffrind agos i ddioddefwr neu oroeswr gangiau sy'n meithrin perthynas amhriodol**

**Mae gennyf brofiad proffesiynol o gangiau sy'n meithrin perthynas amhriodol**

**Mae'n well gennyf beidio â dweud**

**Arall (rhowch fanylion):**

**Barn ar y Cylch Gorchwyl drafft**

**C4: Oes gennych chi farn ar Gylch Gorchwyl Drafft yr Ymchwiliad Annibynnol i Gangiau sy'n Meithrin Perthynas Amhriodol?** *

- Oes – mae Estyn yn cefnogi amcanion yr Ymchwiliad a'i ffocws ar ddysgu gwersi i gryfhau systemau diogelu. Caiff y sylwadau isod eu cynnig i gynorthwyo eglurder, cymesuredd a chyflawni swyddogaethau'r Ymchwiliad yn effeithiol o fewn y fframweithiau statudol a chyfansoddiadol sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr.

**C5: Os ateboch 'oes' uchod, atebwch isod:**

**Rhannwch eich barn ar Gylch Gorchwyl Drafft yr Ymchwiliad Annibynnol i Gangiau sy'n Meithrin Perthynas Amhriodol. Peidiwch â rhoi unrhyw wybodaeth adnabod na gwybodaeth gyfrinachol (e.e. enwau, cyfeiriadau) yn eich ateb.** *

**Cwmpas (4.5.3) –** Mae adran 4.5.3 yn amodi y gall ymchwiliadau lleol archwilio gweithredoedd "lleoliadau addysg". Nid yw'r Cylch Gorchwyl yn nodi a yw cyrff arolygu statudol yn dod o fewn cwmpas ymchwiliad nac yn gwahaniaethu rhwng cyfrifoldebau diogelu gweithredol a swyddogaethau goruchwylio statudol. Mae Estyn yn arfer swyddogaethau gwerthuso ac adrodd ac nid oes ganddo bwerau diogelu gweithredu nac awdurdod rheoli achosion.

Er mwyn eglurder, dylai'r Cylch Gorchwyl ddatgan yn benodol:

- A yw cyrff arolygu'n rhan o'r cwmpas

- A fyddai archwiliad yn ymwneud â fframweithiau arolygu, arfer arolygu neu oruchwyliaeth systemig ehangach
- Nad yw arolygiaethau fel Estyn yn arfer pwerau diogelu gweithredol nac yn cyfeirio canlyniadau achosion unigol

Bydd nodi'n glir yn osgoi cymysgu rhwng darparu gwasanaethau gweithredol a swyddogaethau craffu allanol, sy'n ymwneud â dyletswyddau statudol, llwybrau atebolrwydd a safonau cyfreithiol gwahanol.

**Amserlen / arfer hanesyddol (4.1 a 5.5) –** Bydd yr Ymchwiliad yn archwilio materion yn codi o 2000 ymlaen. Yn ystod y cyfnod hwn, mae deddfwriaeth diogelu, canllawiau statudol, trefniadau amlasiantaeth a fframweithiau arolygu wedi esblygu'n sylweddol.

Dylai'r Cylch Gorchwyl gadarnhau:
- Y bydd ymddygiad hanesyddol yn cael ei asesu trwy gyfeirio at y fframweithiau statudol a phroffesiynol a oedd yn berthnasol ar yr adeg berthnasol;
- Y bydd canfyddiadau'n gwahaniaethu rhwng diffyg cydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol cyfoes a diffygion a fernir yn erbyn safonau dilynol.

Byddai eglurhad tebyg yn cefnogi tegwch, cymesuredd a chydlyniad dadansoddol. Dylai'r Cylch Gorchwyl egluro'r dull tystiolaethol a fydd yn cael ei ddefnyddio wrth adolygu canfyddiadau arolygu neu sylwebaeth reoleiddiol, gan gynnwys sut bydd yr Ymchwiliad yn asesu dibynadwyedd tystiolaeth arolygu hanesyddol ac i ba raddau y bydd tuedd ôl-ddoethineb yn cael ei lliniaru.

**Cyd-destun deddfwriaethol datganoledig (1.3, 4.6 a 5) –** Dylai'r Cylch Gorchwyl gydnabod bod fframweithiau deddfwriaethol a llywodraethu yn wahanol yng Nghymru. Mae strwythurau arolygu a diogelu addysg yn gweithredu dan ddarpariaethau statudol Cymru ar wahân ac mae addysg yn fater datganoledig dan setliad Deddf Llywodraeth Cymru. Felly, dylai'r Cylch Gorchwyl:
- Cydnabod yn benodol y bydd ymchwiliadau yng Nghymru yn cael eu cynnal o fewn fframwaith cyfreithiol cymwys Cymru;
- Egluro y bydd argymhellion ar lefel genedlaethol yn gwahaniaethu rhwng materion datganoledig a materion heb eu datganoli.

Bydd ymgysylltiad cynnar a pharhaus â Gweinidogion Cymru a'r awdurdodau perthnasol yng Nghymru yn sicrhau bod unrhyw argymhellion ar gyfer meysydd datganoledig yn gydlynol ac yn weithredadwy'n ymarferol.
**Archwilio ethnigrwydd, crefydd a diwylliant (4.3) –** Mae adran 4.3 yn ei gwneud yn ofynnol archwilio sut y chwaraeodd ethnigrwydd, crefydd a diwylliant ran mewn ymatebion sefydliadol. O ystyried y goblygiadau cyfreithiol ac o ran cydraddoldeb, byddai'r Cylch Gorchwyl yn elwa ar fwy o fanylder ynghylch:
- Y sail dystiolaethol dros briodoli arwyddocâd achosol neu gyfrannol i'r ffactorau hyn;
- Y fframwaith dadansoddol i'w gymhwyso wrth wahaniaethu rhwng methiant diogelu ac ystyriaethau gwleidyddol-gymdeithasol ehangach.

- Y dull o sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion cydraddoldeb ac anwahaniaethol, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hadlewyrchu yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Byddai drafftio clir yn cefnogi tryloywder a chadernid gweithdrefnol.

**Prosesau troseddol a rheoleiddiol (6.4) –** Mae adran 6.4 yn ymdrin ag ymchwiliadau troseddol sy'n mynd rhagddynt. Lle mae'r Ymchwiliad yn croestorri â darparwyr addysg rheoleiddiedig neu dystiolaeth arolygu, dylai'r Cylch Gorchwyl egluro a fydd protocolau ymgysylltu ffurfiol yn cael eu sefydlu â chyrff arolygu, a sut caiff tystiolaeth arolygu ei thrin er mwyn osgoi dyblygu neu ansicrwydd gweithdrefnol.

Gallai'r Cylch Gorchwyl gydnabod y dylai argymhellion sy'n effeithio ar ddarparwyr addysg fod yn gymesur, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymwybodol o realiti gweithredol y darparwyr.

**Ymchwiliadau Lleol – gwasanaethau / asiantaethau i'w cynnwys**

**C6: Mae [Cylch Gorchwyl Drafft yr Ymchwiliad Annibynnol i Gangiau sy'n Meithrin Perthynas Amhriodol] yn cyfeirio at y gwasanaethau neu'r asiantaethau canlynol i'w cynnwys yn yr ymchwiliadau lleol: partneriaethau diogelu lleol (a'u rhagflaenwyr); partneriaethau diogelwch cymunedol; byrddau diogelu rhanbarthol yng Nghymru; awdurdodau lleol (gan gynnwys gwaith cymdeithasol plant a gwasanaethau teulu); heddluoedd; y system cyfiawnder troseddol ehangach (gan gynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron); gwasanaethau iechyd ac iechyd rhyw; lleoliadau addysg; gwasanaethau ieuenctid a chymunedol, gan gynnwys timau troseddau ieuenctid; a sefydliadau gwirfoddol neu'r trydydd sector, fel sefydliadau cymorth i ddioddefwyr.**

**A oes unrhyw wasanaethau neu sefydliadau eraill y credwch y dylid eu hystyried i'w cynnwys yn yr ymchwiliadau lleol?** *

- Oes

**Os ateboch 'oes', atebwch isod:**

**C7: Nodwch ba wasanaethau neu sefydliadau eraill y credwch y dylid eu hystyried i'w cynnwys yn yr ymchwiliadau lleol. Peidiwch â rhoi unrhyw wybodaeth adnabod na gwybodaeth gyfrinachol (e.e. enwau, cyfeiriadau) yn eich ateb. ***

Efallai yr hoffai'r Ymchwiliad egluro, lle mae'n berthnasol i faterion systemig, y gellid ystyried cyrff arolygu neu reoleiddio statudol sy'n gyfrifol am werthuso trefniadau diogelu,

hefyd. Lle mae arfer ddiogelu systemig yn cael ei harchwilio, efallai yr hoffai'r Ymchwiliad gynnwys cyrff arolygu neu reoleiddio statudol i'r graddau y maent yn cyfrannu at saernïaeth atebolrwydd. Dylai unrhyw gynhwysiad tebyg egluro bod y cyrff hyn yn gwerthuso effeithiolrwydd diogelu, ond nad ydynt yn arfer pwerau diogelu neu orfodi gweithredol mewn achosion unigol.

**Ymchwiliad – amserlen**

**C8. Dywed y Cylch Gorchwyl drafft y bydd yr Ymchwiliad yn archwilio materion sy'n codi rhwng 1 Ionawr 2000 a dyddiad sefydlu'r Ymchwiliad. Bydd yr Ymchwiliad yn gweithredu am ddim mwy na thair blynedd ac rydym wedi gosod yr amserlen hon er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar faterion sydd wedi codi dros y 25 mlynedd diwethaf. A ydych yn cytuno â'r amserlen hon?** *

- Ydw

**Os ateboch 'na' uchod, atebwch isod:**

**Nodwch y flwyddyn y dylai'r Ymchwiliad ddechrau ynddi (e.e. 1990).** *

**Cwestiynau demograffig**

**C9. A ydych yn ymateb i'r arolwg hwn fel unigolyn neu ar ran sefydliad/elusen? Dewiswch un opsiwn.** *

- Sefydliad

**Os ateboch 'sefydliad / elusen', atebwch isod:**

- Estyn – Yr Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant

**C10: Ble rydych chi wedi'ch lleoli / ble mae eich sefydliad wedi'i leoli? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.**

- Cymru

**C11: Pa fath o sefydliad ydych chi'n ymateb ar ei ran?**

**Arall (rhowch fanylion):**

- Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant

**C12: Dywedwch fwy wrthym am eich sefydliad. Sawl cyflogai sydd gan eich sefydliad?**

- 101-200